# Yr Allwedd Sgleiniog

Roderick Hunt Alex Brychta



Coeden Ddarllen Rhydychen




Rhagor o Dylluanod

DRAKE



Roedd Dids yn gwylio'r teledu.
Roedd yr allwedd hud
ar fraich y gadair.
Daeth Nadim i chwarae.




Doedd Dids ddim eisiau chwarae.
Roedd e eisiau gwylio'r teledu.
Roedd e eisiau gwylio rhaglen
am bïod.





Roedd Nadim eisiau antur hud.
Chwiliodd Dids am yr allwedd hud, ond
fedrai e ddim dod o hyd iddi.
Helpodd Nadim Dids i chwilio.




Edrychodd Dids ar y gadair freichiau.
'Rhoddais i'r allwedd ar fraich
y gadair,' meddai.
Yn sydyn, cafodd syniad.





Edrychodd y plant yn y gadair freichiau.
Daethon nhw o hyd i lawer o bethau.
Cafodd Dids hyd i glustdlws coll Mam.
'Bydd Mam wrth ei bodd,' meddai.




Cafodd Dids hyd i'r allwedd.
Roedd wedi glynu at daffi.
'Ych!' meddai Dids.
'Mae'n ludiog.'






Dywedodd Dids hanes y gadair freichiau.
Rhoddodd y clustdlws coll i Mam.
Glanhaodd Nadim yr allwedd.
Gwnaeth hi'n sgleiniog iawn.




Aeth y plant i ystafell Cad.
Edrychodd Cad ar yr allwedd.
'O na! Mae'n edrych yn sgleiniog iawn,' meddai.
'Gobeithio bod yr hud yn dal i weithio.'






Yn sydyn, dechreuodd yr allwedd ddisgleirio.
Edrychai'n llachar iawn.
Aeth yr hud â'r plant
i antur newydd.



Roedd y plant mewn coedwig.
Doedd Dids ddim yn ei hoffi.
Roedd y goedwig yn dywyll iawn.
'Dewch ymlaen!' meddai.

Yn sydyn, gwelodd Cad rywbeth sgleiniog.
Cododd hi.
'Am fodrwy hyfryd!' meddai.
'Rhaid bod rhywun wedi ei gollwng.'



Gwelodd y plant filwyr.
Gwelodd y milwyr y fodrwy.
Gafaelon nhw yn y plant.
'Mae'r fodrwy honno wedi ei dwyn,' medden nhw.






Aeth y milwyr â'r plant at
y tywysog.
'Rydyn ni wedi cael hyd i'r lladron,' medden nhw.
'Dyma eich modrwy.'



‘Dyma’r lladron,’ meddai’r tywysog.
‘Beth arall maen nhw wedi ei ddwyn?’
‘Cafodd fy watsh ei dwyn,’ meddai dyn.
‘Cafodd fy nghlustdlws ei ddwyn,’ meddai gwraig.



Cymerodd milwr yr allwedd hud.
‘Edrychwch ar yr allwedd sgleiniog hon,’ meddai.
‘Mae’r plant hyn wedi dwyn pethau.
Rhaid eu bod wedi eu cloi o’r golwg.’



Aeth y milwyr â'r plant i garchar.
'Ble mae'r pethau sydd wedi eu dwyn?'
gofynnon nhw.
'Dywedwch, neu byddwn yn eich cadw yma.'




Yn sydyn, hedfanodd pioden i lawr.
Cymerodd yr allwedd hud.
'Stopiwch y bioden 'na!' galwodd Cad.
'Mae wedi dwyn yr allwedd.'



Hedfanodd y bioden i'r goedwig.
'Y bioden yw'r lleidr,' meddai Dids.
Rhedodd y plant ar ôl y bioden.
Rhedodd pawb ar ôl y plant.





Hedfanodd y bioden at goeden.
'Edrychwch yn ei nyth,' meddai Dids.
Dringodd Nadim y goeden.
'Cymer ofal,' meddai Cad.




Edrychodd Nadim yn nyth y bioden.
Roedd yn llawn pethau sgleiniog.
Ebychodd Nadim.
'Am bethau hardd!' meddai.






'Welwch chi?' meddai Anneena, yn flin.
'Nid lladron ydyn ni.
Y bioden aeth â'ch pethau chi.'
'Mae'n ddrwg gen i,' meddai'r milwr.



Roedd pawb wrth eu bodd.
'Dyma fy nghlustdlws coll,' meddai gwraig.
'Dyma fy watsh,' meddai dyn.



Rhoddodd y tywysog fedal i'r plant.
'Y bioden oedd y lleidr,' meddai.
'Drwg gen i, rown i'n meddai mai chi oedd.'
Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.



'Mae pïod yn hoffi pethau sgleiniog,' meddai Cad.
'Mae'n beth da bod Nadim
wedi sgleinio'r allwedd hud.'

Argraffwyd yng Nghymru

# Yr Allwedd Sgleiniog

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 6



Rhagor o
Dylluanod

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Juli Paschalis**

**Tylluanod Cam 6**

1 Yn yr Ardd
2 Onw a'r Cawr
3 Y Wibdaith
4 Gwlad y Deinosoriaid
5 Robin Hwd
6 Y Gist Drysorau

**Tylluanod Cam 7**

7 Y Blaned Goch
8 Ar Goll yn y Jyngl
9 Twll yn y To
10 Colli Allwedd

**Rhagor o Dylluanod Cam 6**

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

**Rhagor o Dylluanod Cam 7**

Y Drafford
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1994
Ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
Ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-303-2

ISBN 0 86 174303 2

DRAKE

9 790861 743031